

## Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd Llinos Madeley  
Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Gorffennaf Clerc y Pwyllgor  
2017 0300 200 6565  
Amser: 09.30 [SeneddPPIA@cynulliad.cymru](mailto:SeneddPPIA@cynulliad.cymru)

### Cyfarfod cyn y prif gyfarfod

(09.15 – 09.30)

#### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

#### 2 Ymchwiliad i iechyd meddwl amenedigol – Sesiwn dystiolaeth 11

(09.30 – 11.00)

(Tudalennau 1 – 21)

Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon  
Joanna Jordan – Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Llywodraethu'r GIG & Gwasanaethau  
Corfforaethol

Karen Jewell – Swyddog Nyrsio Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar

Briff Ymchwil

CYPE(5)-22-17 – Papur 1 – Llywodraeth Cymru



### **3 Papurau i'w nodi**

(11.00)

**Nodyn ar Grŵp Llywio Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan**

(Tudalennau 22 – 28)

CYPE(5)-22-17 – Papur 2 – i'w nodi

**Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith –  
Teithio gan Ddysgwyr yng Nghymru**

(Tudalennau 29 – 30)

CYPE(5)-22-17 – Papur 3 – i'w nodi

### **4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.**

(11.00)

### **5 Ymchwiliad i iechyd meddwl amenedigol – Trafod y dystiolaeth**

(11.00 – 11.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Ymchwiliad i Iechyd Meddwl Amenedigol**

**Dyddiad:** 12 Gorffennaf 2017

**Lleoliad:** Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Teitl: Trosolwg o gymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru**

**Diben:** Amlinellu prif bolisiâu Llywodraeth Cymru i gefnogi mamau a theuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan salwch iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru.

**Cynnwys:**

1. Datblygu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol
  2. Datblygu Cymuned Ymarfer Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru gyfan
  3. Hyfforddiant amenedigol arbenigol
  4. Y prosiect Mwynhewch eich Babi
  5. Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni: 2016-19 – Iechyd Meddwl Amenedigol
  6. Atgyfeiriadau i unedau arbenigol mamau a babanod
- Atodiad A – Rhestr o nodau Cymuned Ymarfer

**1. Datblygu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol**

Ym mis Mehefin 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £1.5 miliwn o gyllid rheolaidd newydd i wella canlyniadau iechyd meddwl i ferched â salwch amenedigol, eu babanod a'u teuluoedd. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i sefydlu gwasanaethau amenedigol arbenigol yn y gymuned ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru.

Yn dilyn cyhoeddi'r cyllid, mae Llywodraeth Cymru wedi ymchwilio i'r gwasanaethau cymunedol amrywiol sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. Cyfarfu Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid, gan gynnwys rheolwyr ac ymarferwyr gwasanaeth amenedigol dynodedig, y trydydd sector, bydwragedd, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC), Dechrau'n Deg a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl. Bu'r grŵp yn ystyried elfennau craidd y gwasanaeth cymunedol.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i fyrddau iechyd gyflwyno cynigion cydweithredol ac amlddisgyblaeth; i sicrhau bod gwasanaethau yn addas ar gyfer anghenion poblogaethau lleol. Gofynnwyd i fyrddau iechyd ystyried pa rolau proffesiynol (h.y. nyrsys seiciatrig cymunedol, sesiynau meddygol a seicoleg, therapi galwedigaethol a nyrsio meithrin) y dylid eu cynnwys ym mhob tîm. Rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r gwasanaethau presennol a sut y byddai'r gwasanaethau gwell yn cyflawni cydraddoldeb ar draws ardal y bwrdd iechyd. Er enghraifft, mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, roedd yn ofynnol i fyrddau iechyd arddangos cysylltiadau priodol.

Mae gwasanaeth ar gael ym mhob cwr o Gymru fwy neu lai erbyn hyn, gyda'r gwasanaeth olaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael ei gyflwyno'r mis hwn (mis Gorffennaf). Dylid nodi bod gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys wasanaeth ond nid oes ystadegau ar gael ar hyn o bryd. Mae staff Iechyd

Cyhoeddus Cymru yn cynorthwyo byrddau iechyd yn awr i gytuno ar ddull cyson o gasglu data ar lefel genedlaethol.

Roedd y cynlluniau a gyflwynwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol ar ddefnyddio'r buddsoddiad ychwanegol o £1.5 miliwn yn cynnwys cynigion i recriwtio tua 30 aelod o staff arbenigol newydd.

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol yn nhermau atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymunedol fel a ganlyn:

Nifer yr atgyfeiriadau gan Fyrddau Iechyd Lleol

	<b>BIP ABM</b>	<b>BIP AB</b>	<b>BIP BC</b>	<b>BIP CT</b>	<b>BIP CaF</b>	<b>BIP HDd</b>	<b>BIAP</b>
	<b>Atgyfeiriadau</b>	<b>Atgyfeiriadau</b>	<b>Atgyfeiriadau</b>	<b>Atgyfeiriadau</b>	<b>Atgyfeiriadau</b>	<b>Atgyfeiriadau</b>	<b>Atgyfeiriadau</b>
<b>2016</b>	<b>510</b>	<b>186</b>	<b>-</b>	<b>307</b>	<b>284</b>	<b>117</b>	<b>-</b>
<b>Ion-Mai 2017</b>	<b>258</b>	<b>274</b>	<b>-</b>	<b>107</b>	<b>170</b>	<b>102</b>	Dim data ar gael.

## **2. Grŵp Llywio Amenedigol Cymru Gyfan a Chymuned Ymarfer Amenedigol Cymru Gyfan**

Yn 2016, yn dilyn y cyhoeddiad am wasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol newydd, sefydlwyd 'Grŵp Llywio Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan' i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau a gweithio i wella cysondeb. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth o'r byrddau iechyd, timau amenedigol, bydwreigiaeth, obstetryddion, ymwelwyr iechyd, sefydliadau'r trydydd sector (gan gynnwys NSPCC a MIND), yn ogystal â'r rhai â phrofiad personol. Cyd-gadeiryddion y grŵp yw'r Athro Ian Jones, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl a Dr Sue Smith, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Gwneir y trefniadau adrodd ar gyfer y grŵp drwy Grŵp Llywio CAMHS/y Rhwydwaith Anhwylderau Bwyta ar ffurf eitem reolaidd ar yr agenda sy'n rhoi adroddiadau cynnydd chwarterol i grŵp llywio'r rhwydwaith. Mae hyn yn hwyluso'r gwaith o adrodd ar ddatblygiadau'r gwasanaeth iechyd meddwl amenedigol i GIG Cymru er mwyn hysbysu prif weithredwyr y saith bwrdd iechyd yng Nghymru.

Mae'r grŵp llywio wedi cynnull dau is-grŵp yn ddiweddar, un a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygiad llwybr amenedigol Cymru gyfan a'r llall i ddisgrifio anghenion a chymwysterau hyfforddiant cyffredinol ac arbenigol i'r staff sy'n gweithio gyda mamau a babanod.

## Y Gymuned Ymarfer Amenedigol

Mae'r Gymuned Ymarfer Amenedigol yn ceisio gwella a datblygu gwasanaethau cymunedol ar hyd a lled Cymru drwy rannu dysg, adnoddau a deunyddiau i ddatblygu gwasanaethau effeithiol, effeithlon, grymusol a chyfartal i fenywod y mae angen y gwasanaethau hyn arnynt, a hybu llwybrau at randdeiliaid perthnasol yng Nghymru er mwyn sicrhau mynediad amserol a phriodol i ofal. Mae'r Arweinydd Clinigol a/neu'r Arweinydd Nyrsio Arbenigol yn cael eu cynrychioli ar Grŵp Llywio Amenedigol Cymru Gyfan.

Datganiad Cenhadaeth:

*Sicrhau bod pob mam yng Nghymru sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef salwch meddwl yn cael mynediad amserol i driniaeth a chymorth priodol i'w chynorthwyo i liniaru ei thrallod, a datblygu perthynas gariadus ac anogol gyda'i babi yn ystod beichiogrwydd ac ym mlwyddyn gyntaf bywyd y babi.*

Mae pob bwrdd iechyd wedi nodi ei 'gymuned' ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd amenedigol, gan gynnwys:

- 'Hyrwyddwr' Amenedigol ar lefel Gweithrediaeth/Bwrdd
- Arweinydd Clinigol Amenedigol
- Arweinydd Nyrsio Arbenigol Amenedigol
- Tîm Gwella Gwasanaeth Amenedigol - a fydd yn 'dîm' amlasiantaeth, ambroffesiwn a fydd yn gweithredu ar draws y lefelau gofal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol.

Gweler hefyd y rhestr o nodau'r Gymuned Ymarfer Amenedigol yn Atodiad A.

### **3. Hyfforddiant Arbenigol**

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cyllid ar gyfer hyfforddiant amenedigol arbenigol yn 2016-17, am gost o £9,750.

#### Lleoedd hyfforddiant i seiciatryddion o Gymru ar gwrs amenedigol arbenigol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

Ers y llynedd, mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi cynnal cwrs tridiau yn benodol ar gyfer Seiciatryddion Ymgynghorol Amenedigol. Mae pum seicolegydd o Gymru wedi mynychu'r hyfforddiant arbenigol hyd yma, hyfforddiant sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Derbyniwyd adborth gwych gan y cyfranogwyr, a oedd yn datgan eu bod wedi meithrin sgiliau, gwybodaeth arbenigol a chysylltiadau newydd. Mae cynlluniau i'r pum seiciatrydd hwyluso diwrnod 'Hyfforddiant Amenedigol Arbenigol' i'r Gymuned Ymarfer Amenedigol ehangach a chyfranogwyr perthnasol eraill (y dyddiadau i'w cadarnhau).

## Hyfforddiant Canllawiau Rhyngweithiol Fideo (VIG)

Mynychwyd yr hyfforddiant deuddydd hwn gan 15 o gyfranogwyr o'r 7 Bwrdd Iechyd a chafwyd adborth cadarnhaol ganddynt.

Rydym yn ymwybodol bod cynnig arall yn cael ei wneud i'r byrddau Iechyd i ariannu 10 lle ar gyfer hyfforddiant VIG Lefel Un a Lefel Dau. Bydd hyn yn sicrhau bod hyfforddwyr VIG achrededig yng Nghymru, a fydd yn rhaeadru'r ymyrraeth hon i Fydwagedd, Ymwelwyr Iechyd, Iechyd Meddwl, Nyrsys Meithrin, Seicolegwyr ac yn y blaen. Sefydlwyd Grŵp VIG CRAIDD Cymru sy'n cael ei arwain gan Arweinydd Clinigol Cenedlaethol Gwasanaethau a Seicolegwyr Amenedigol.

### **4. Cynllun Grant Her Iechyd Cymru ar gyfer y Sector Gwirfoddol – prosiect “Mwynhewch Eich Babi” Mind Cymru ar Iechyd Meddwl a Gwynwch Amenedigol – Cymorth Cynnar**

Mae Cynllun Grant Her Iechyd Cymru Llywodraeth Cymru ar gyfer y Sector Gwirfoddol wedi darparu cyllid ar gyfer prosiect Iechyd Meddwl a Gwynwch Amenedigol Mind Cymru – Cymorth Cynnar, ‘Mwynhewch Eich Babi’ ers 2013. Nod y prosiect yw codi ymwybyddiaeth o broblemau Iechyd meddwl amenedigol, a chynyddu'r gallu i adnabod yr arwyddion cynnar bod problemau'n datblygu, er mwyn annog pobl i ofyn am gymorth. Mae gan y prosiect, a sefydlwyd yng ngogledd Cymru i ddechrau, wefan benodol, “Mwynhewch Eich Babi”, sydd yn gweithredu ers tair blynedd erbyn hyn. Mae'r prosiect wedi datblygu adnoddau ymyrraeth gynnar i'w defnyddio mewn gofal sylfaenol, a meithrin capasiti mewn gofal sylfaenol drwy wella sgiliau gweithwyr proffesiynol.

Hyd yma, mae cyflawniadau'r prosiect (targedau mewn cromfachau) yn cynnwys:

- Hyfforddi 78 (75) o weithwyr Iechyd proffesiynol i gynnal y rhaglen “Mwynhewch Eich Babi” ac wedi mynd ymlaen i gynnal cyrsiau.
- Hyfforddi 39 (16) o weithwyr Iechyd proffesiynol i gyflawni cymhwyster Iechyd Meddwl Mamau a Babanod. Mae'r hyfforddwyr hyn yn paratoi i gynnal cyrsiau dros Gymru gyfan nawr.
- 969 (700) o weithwyr Iechyd proffesiynol, gan gynnwys bydwagedd, hefyd wedi'u hyfforddi drwy gwrs Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl Amenedigol newydd Mind yng ngogledd Cymru o fis Hydref 2016 – Mawrth 2017, sy'n ychwanegi at raglen “Mwynhewch Eich Babi”
- Mae dros 10,000 o ymwelwyr wedi ymweld â'r wefan “Mwynhewch Eich Babi”, gyda 70% o ymwelwyr newydd a 30% o ymwelwyr sy'n dychwelyd ers mis Medi 2014

Mae'r prosiect hefyd wedi helpu codi proffil Iechyd meddwl amenedigol a phwysigrwyd sicrhau'r berthynas orau bosibl rhwng mam a'i phlentyn gyda nifer o sefydliadau amrywiol ledled Cymru, ac yn sefydlu ei hun fel cynrychiolydd amenedigol y trydydd sector yng Nghymru.

Mae'r prosiect wedi derbyn cyfanswm o tua £175,000 o gyllid dros y 4 blynedd ddiwethaf ac yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2017. Bydd gwerthusiad o'r prosiect yna

yn ystyried camau pellach a sut gall y canlyniadau gael eu hintegreiddio mewn i raglen genedlaethol.

## **5. Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni 2016-19 – Iechyd Meddwl Amenedigol**

Mae cynllun cyflawni 2016-19 yn cynnwys Maes Blaenoriaeth 5: “Mae pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd a hynny drwy roi'r cymorth sydd ei angen ar rieni / gofalwyr”, gyda'r camau gweithredu canlynol:

- Byrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod gwybodaeth a chymorth da yn cael ei gynnig i ferched pan fyddant yn cynllunio'u beichiogrwydd ac yn ystod eu beichiogrwydd, yr enedigaeth ac wedyn. Bydd hyn yn hybu ymlyniad da, drwy ddefnyddio rhaglenni Llywodraeth Cymru fel Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Naw Mis a Mwy a mentrau'r trydydd sector.
- Byrddau iechyd i sicrhau bod gwasanaeth amenedigol ar gael ym mhob ardal BILI yng Nghymru
- Byrddau iechyd i sicrhau bod rhaglenni addysg a hyfforddiant ar waith ar hyd a lled Cymru i godi ymwybyddiaeth o broblemau iechyd meddwl amenedigol a'u rheoli'n well

Mae cynnydd yn erbyn y Cynllun Cyflawni 2016-19 yn cael ei oruchwylio gan y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol, a fydd yn derbyn adroddiadau bob chwe mis gan bob ardal bwrdd iechyd yn rhoi gwybodaeth am gynnydd.

## **6. Unedau arbenigol mamau a babanod**

Dylid darparu gwasanaethau i gynorthwyo mamau â salwch iechyd meddwl mor agos â phosibl i'w cartref. Darparwyd y £1.5 miliwn o gyllid rheolaidd ychwanegol i ddatblygu gwasanaethau amenedigol arbenigol yn y gymuned ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru, fel cydnabyddiaeth o'r angen i wella'r gwasanaethau hyn.

Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd angen cymorth fel cleifion mewnol ar rai mamau a'u babanod. Hyd at 2013 roedd uned arbenigol mamau a babanod yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ond penderfynodd BIP Caerdydd a'r Fro ei chau oherwydd y nifer fach o dderbyniadau yn y ddwy flynedd flaenorol. I gydnabod y pryderon a fynegwyd nad oes cyfleuster o'r fath ar gael bellach yng Nghymru, comisiynwyd adolygiad gennym o'r galw am wasanaethau haen 4 gan WHSSC. WHSSC yw'r corff sy'n gyfrifol am gomisiynu lleoliadau mewn unedau arbenigol mamau a babanod a nodir manylion eu hadolygiad isod. Fodd bynnag, mae angen i ni gydnabod bod lefel y galw yn amrywio ar draws Cymru, o ran niferoedd a daearyddiaeth yn ystod y flwyddyn. Gallai fod yn anodd canfod lleoliad ar gyfer uned o'r fath yng Nghymru nad yw'n arwain at famau a'u teuluoedd yn teithio pellteroedd hir, hyd yn oed os yw gwaith WHSSC yn dangos bod galw am uned o'r fath,

Yn nhermau lleoliadau gwirioneddol, mae WHSSC wedi darparu'r data canlynol ar y nifer o leoliadau arbenigol a gomisiynwyd ganddo yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Ni fydd y ffigurau hyn yn ystyried mamau a allai fod wedi penderfynu eu hunain i gael eu derbyn mewn uned iechyd meddwl i oedolion leol, i'w galluogi i fod yn agosach at eu teuluoedd.



	2014/15	2015/16	2016/17
Cymeradwywyd cyllid ar gyfer lleoliadau (newydd) Mamau a Babanod mewn Uned Amenedigol	Llai na 5	Llai na 5	6

#### Adolygiad o wasanaethau iechyd meddwl amenedigol Haen 4

Dechreuodd yr adolygiad o wasanaethau iechyd meddwl amenedigol Haen 4 a nodwyd uchod ym mis Awst 2016, ac mae'n cael ei gynnal gan grŵp gorchwyl a gorffen Grŵp Llywio Amenedigol Cymru Gyfan. Mae sefydliadau'r trydydd sector wedi cyfrannu at y gwaith hwn, gan gynnwys Action on Postpartum Psychosis (APP), Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru a'r NSPCC. Mae Mind Cymru hefyd yn aelod o'r Grŵp Llywio.

Cynhaliwyd nifer o ymweliadau â gwasanaethau i gefnogi'r gwaith ac mae gweithdy o randdeiliaid amlbroffesiwn wedi datblygu rhestr fer o fodelau. Bwriadwyd cyflwyno adroddiad terfynol i Gydbwyllgor WHSSC ar 27 Mehefin 2017.

## Atodiad A

### Nodau Cymuned Ymarfer Amenedigol Cymru Gyfan:

- Rhannu adnoddau gan gynnwys polisïau gweithredol, swydd-ddisgrifiadau a manylebau person i helpu i ddatblygu modelau gwasanaeth i safon dderbyniol ledled Cymru.
- Sicrhau a monitro cydymffurfiaeth ag o leiaf math 1 y safonau a nodir yn Safonau Rhwydwaith Gwasanaeth Iechyd Meddwl Amenedigol CCQI Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (Ail Rifyn Ebrill 2014).
- Meincnodi data gwasanaeth i gymharu'r galw am wasanaeth, perfformiad a datblygiad ledled Cymru.
- Cydlynu digwyddiadau yn ôl yr angen i hybu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol Cymunedol o fewn gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol, gofal sylfaenol a'r rhwydwaith ehangach o randdeiliaid perthnasol.
- Cydgysylltu gwaith y Gymuned Ymarfer gyda rhwydweithiau eraill gan gynnwys grŵp llywio CAMHS/y rhwydwaith Anhwylderau Bwyd, grŵp llywio Seiciatreg Amenedigol a Grŵp Llywio Amenedigol Cymru Gyfan, Rhwydwaith Mamolaeth Cymru a Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru.
- Gweithredu fel dolen gyswllt ar gyfer dosbarthu ymchwil a gwybodaeth berthnasol am arfer.
- Darparu adroddiadau yn ôl yr angen i Lywodraeth Cymru ar gynnydd wrth ddatblygu gwasanaethau.

Mae rhaglen wella tair blynedd yn cael ei datblygu gyda cherrig milltir blynyddol, mewn cydweithrediad â'r rhaglenni cenedlaethol canlynol:-

- Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni 2016-19 – Bwrdd Rhaglen Cenedlaethol
- Bwrdd Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc
- Rhaglen Gydweithredol y Blynyddoedd Cynnar – y 1000 diwrnod cyntaf. Grŵp Arweinyddiaeth Strategol Unedig i Wella Iechyd CLILC Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Grŵp Cynghori Rhwydwaith a Phenathiaid Bydwreigiaeth Gwella Gwasanaethau Mamolaeth

## **Report to the Children, Young People and Education Committee**

This paper has been prepared to provide the Committee with information on the All Wales Perinatal Mental Health Steering Group and its associated Community of Practice.

### **All Wales Perinatal Mental Health Steering Group (AWPMHSG)**

In 2016 the Welsh Government announced funding to support health boards deliver community perinatal mental health services across Wales. The 'All Wales Perinatal Mental Health Steering Group' (AWPMHSG) was established with representation from all key stakeholders to offer advice and information as well as support the development of all Wales standards and pathways for the delivery of services. This group is chaired by Prof Ian Jones National Centre for Mental Health (NCMH) and Dr Sue Smith, Cardiff & Vale University Health Board with project support from Lisa Kinsella, who has been seconded into the position of 'National Clinical Lead for Perinatal Services' Public Health Wales, 1000 lives, and overseen by Dr Leslie Rudd Public Health Wales and Andrea Gray, Public Health Wales.

The AWPMHSG reports to the Children and Adolescent Mental Health Services/Eating Disorder Network Steering Group (CAMHs/ED network steering group) in the form of a regular agenda item reporting progress on a quarterly basis to the network steering group. This facilitates the reporting of perinatal mental health service developments to the NHS Wales Collaborative to inform the chief executives of the seven health boards in Wales.

Membership of the group includes those with lived experience, third sector organisations including the NSPCC and MIND, the NCMH, midwives, health visitors, obstetricians, psychiatrists as well as specialist perinatal practitioners.

In 2016, perinatal services in Wales were limited in scope and coverage, there was the

- Cardiff & Vale community perinatal service
- PRAMS (perinatal response and management service) in Bridgend and
- Pembrokeshire Perinatal Pilot in Pembroke dock

There are now 5 fully functioning community perinatal services across Wales with another imminently introducing a community perinatal service and the 7<sup>th</sup> exploring preventative pathways between midwifery and local primary mental health support services directly after perinatal training.

The current steering group held its first meeting in early 2016 and for the rest of that year met bi monthly. Since 2017 it has convened on a quarterly basis.

The group has supported the development of perinatal services throughout Wales by for example:

- Initiating the agreement between all health boards to adopt the Royal College of Psychiatrists community perinatal service standards<sup>1</sup> and work towards their implementation.
- Supporting the work of the NCMH research regarding perinatal mental health.
- Receiving and disseminating research and current good practice presentations which have ranged from, the importance of intervening in the early years to SSRI antidepressant's in pregnancy and the congenital anomalies.
- Supporting the ongoing work of MBRRACE-UK<sup>2</sup> - to facilitate further research.

---

<sup>1</sup> <http://everyonesbusiness.org.uk/wp-content/uploads/2015/04/Perinatal-Community-Standards-2nd-edition.pdf>

<sup>2</sup> <https://www.npeu.ox.ac.uk/mbrance-uk>

- Assisting in the launch and full integration of the Maternal Mental Health Campaign, (MMHA)<sup>3</sup> in Wales. The campaign has highlighted the significance of perinatal mental health in England and Scotland, promoting the importance of 'early identification' of those 'at risk' of perinatal mental health problems, with an emphasis on prevention. The MMHA has also pioneered the provision of perinatal service delivery through multi agency/multi discipline approaches, naming the campaign 'Everyone's Business'<sup>4</sup>.
- Championing and facilitating the provision of perinatal training by bidding for additional monies from Welsh Government for example: Video Interactive Guidance(VIG) which, which was a two day introductory training held in Cardiff and attended by 15 perinatal health professionals from the 7 different health boards.. All participants found this perinatal intervention useful, expressing an interest in further training to become fully accredited in VIG.

A further proposal for additional funding will be submitted to Welsh Government shortly in order to train a further 10 staff so that in two years, Wales will have its own cohort of fully accredited VIG trainers to further cascade this fully evidenced based perinatal intervention to all identified relevant perinatal health professionals in Wales. Video Interactive Guidance has been designed to enhance and support the development of the mother and baby bond, which has significant implications for the future generations.

- Another 'Once for Wales' funding application was made to Welsh Government for 5 Welsh psychiatrists to attend the Royal College of Psychiatrists, Specialist Perinatal Psychiatrist's training in England. This 3 day course provided the latest evidence and research regarding diagnosis and treatment. It also enabled the participating psychiatrists to further enhance their links/relationship with their English and Scottish peers, and gather further ideas on process and systems already in use elsewhere.

---

<sup>3</sup> <http://maternalmentalhealthalliance.org/>

<sup>4</sup> <http://everyonesbusiness.org.uk/>

Feedback has been very good, with most Welsh psychiatrists now feeling more confident regarding their own facilitation of specialist perinatal clinic's, where to obtain further support and Information, if required, and relevant networks/forums that they are eligible to join to further enhance their perinatal practice.

- Promoting the Maternal and Infant Mental Health (MIMH) training, across Wales to increase awareness of perinatal mental health and in particular the importance of maximising mothers' mental health and the relationship between mother and baby. This fully accredited and Agored certified training is a 'trainer train's a trainer' course with qualifications at two levels. By ensuring the quality and standard of the MIMH's training is consistently maintained, it is hoped that this will enable a standardised perinatal awareness and training to continue to be 'rolled out' across Wales. Several health boards have adopted this as their formal perinatal training with members of fully accredited trainers increasing.
- Acting as a specialist advisory group the National Society for the Prevention of Cruelty to Children's project which is looking at the provision of perinatal services in Wales.
- Proving advice and support to the Tier 4 specialised service provision task and finish group, which is considering the provision of in patients services (mother and baby unit) for women in Wales who need to be admitted to hospital with perinatal mental health problems.
- Co producing a collaborative conference with the Royal College of Midwives, which clearly established and promoted the necessity of the 'early identification' of those 'at risk' of Perinatal Mental Health problems, and timely 'prevention' by working in close collaboration with Midwifery. Each health board presented either their current provision or shared their future delivery plan.

- Supporting the equitable delivery of services for those with a learning disability including the development of appropriate documentation and interventions, this will be delivered by learning disability nurses working with women with a learning disability across Wales who may experience a perinatal mental health problem.
- Initiating two task and finish sub groups which are:
  - developing all Wales unified pathways and associated documentation and criteria, which will also support consistent data collection
  - developing an agreed competency perinatal training framework at different levels of service provision.

The AWPMHSG also facilitates the all Wales perinatal community of practice

### **All Wales Perinatal Community of Practice (COP)**

A community of practice is defined as:

*“A process of social learning that occurs when people have a common interest in a subject or area, collaborate over an extended period of time, sharing ideas and strategies, determine solutions and build innovations”.*

To this end, each health board has identified its ‘community’ for improving perinatal mental health services in Wales, this includes a:-

- Perinatal ‘Champion’ at Executive/Board level
- Perinatal clinical lead
- Perinatal nurse specialist lead
- Perinatal service improvement team – which will be a multi-agency, multi-professional ‘team’ operating across primary, secondary and tertiary care levels.

The clinical lead and/or nurse specialist lead for each health board is a member of the AWPMHSG. The service 'teams' (which may be actual specialist teams and/or wider 'virtual' teams) participate in national collaborative learning/conference events and webinars planned by the AWPMHSG. These will adopt the Institute of Health Improvement (IHI) Breakthrough Collaborative Improvement methods <http://www.ihl.org/> and members of the Perinatal Community of Practice will be invited to join the 1000Lives Improving Quality Together programme [www.iqt.wales.nhs.uk/](http://www.iqt.wales.nhs.uk/)

### Aims of the COP

The Perinatal COP aims to improve and develop community services across Wales by sharing learning, resources and materials to develop effective, efficient, empowering and equitable services to women in need of these services, and to promote pathways to the relevant stakeholders in Wales to ensure timely and appropriate access to care. It has facilitated the:

- Sharing of resources such as operational policies, job descriptions and person specifications to assist the development of service models to an acceptable standard across Wales.
- Agreement that health boards will attain and monitor compliance to at least type 1 of the standards set out in the Royal College of Psychiatrists CCQI Network for Perinatal Mental Health Service Standards (Second Edition April 2014).
- Agreement to benchmark service data, when available, to compare service demand, performance and development across Wales.
- Co-ordination of events as required to promote Community Perinatal Mental Health Services within specialist mental health services, primary care and with the wider network of relevant stakeholders.



- Dovetailing of the work of the Community of Practice with other networks including the CAMHS/ED network steering group, the Maternity Network Wales and the Neonatal Network Wales.
- The dissemination of relevant research and practice information.
- Provision of reports as required to Welsh Government on progress in the development of services.

A three year improvement work programme will be developed with annual milestones in collaboration with the following 7 national Programmes:-

- Together for Mental Health Delivery Plan 2016-19 – National Programme Board
- Together for Children & Young People’s Programme Board
- Early Years Collaborative programme – the first 1000 days.  
PHW WLGA United in Improving Health Strategic Leadership Group
- Maternity Services Improvement Network & Heads of Midwifery Advisory Group (HOMAG).

Reporting and accountability of the Perinatal COP within the NHS will be to the CAMHS/Eating Disorders Network (Service Planning Group) chaired by Carol Shillabeer on behalf of Health Board Chief Executive’s, and facilitated by WHSSC. The AWPMHSG and Perinatal COP maintains a close relationship with perinatal voluntary services, across Wales, with relevant members participating on the national steering group. Since its foundation, the steering group has ensured that the voice of those with ‘lived experience’ maintains a consistent presence and position at steering group level, and within the Perinatal COP, contributing to all discussions and decisions made.

Paper developed by:

Lisa Kinsella: National Clinical Lead for Perinatal Services, Public Health Wales

Andrea Gray: Mental Health Development Lead for Wales, Public Health Wales

3 July 2017

Ken Skates AC  
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

5 Gorffennaf 2017

Annwyl Ken,

### Teithio gan Ddysgwyr yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei flaenraglen waith yn ddiweddar. Mae aelodau'r Pwyllgor wedi nodi diddordeb mewn rhoi sylw i sut y bydd teithio gan ddysgwyr yng Nghymru yn datblygu, yn enwedig materion sy'n ymwneud â chydymffurfiad awdurdodau lleol i gynnal asesiadau ynglŷn â llwybrau cerdded peryglus sy'n arwain at fannau codi dysgwyr.

Mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth sy'n awgrymu y gall gwahaniaethau fod yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn dehongli deddfwriaeth a chanllawiau o ran teithio gan ddysgwyr yn y modd mae llwybrau peryglus yn cael eu hasesu, yn enwedig mewn perthynas â llwybrau cerdded o'r cartref i'r manau lle mae'r cerbydau yn codi dysgwyr.

Mae Adran 2 o *Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008* yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i asesu anghenion teithio dysgwyr o dan 19 oed ac mae'r Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr yn rhestru nifer o bethau sydd hefyd yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw iddynt wrth asesu anghenion teithio dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys 'natur y llwybr y disgwylir i'r dysgwr ei gymryd rhwng y cartref a'r lleoliadau lle y cynhelir yr addysg neu'r hyfforddiant ar eu cyfer.

Yn y Pedwerydd Cynulliad, hysbysodd y cyn Weinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y Cynulliad:

---

"Where travel arrangements made by local authorities require children to walk to and from pick up points for learner transport, they must ensure that both the walked route and the learner transport itself are suitable; such transport



arrangements must be safe, not take unreasonable time and not cause unreasonable stress.”<sup>1</sup>

---

Nododd y Gweinidog yn ei llythyr at yr Aelodau ei bod wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol i'w hatgoffa o'u dyletswyddau a cheisio sicrwydd eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau.


Byddai o gymorth i'r Pwyllgor yn ei waith pe gallech roi gwybodaeth i ni am y materion a ganlyn:

- Statws pob awdurdod lleol o ran cydymffurfio â'u dyletswyddau i ddysgwyr;
- Unrhyw ganlyniadau sydd wedi deillio o ohebiaeth y cyn Weinidog â phob awdurdod lleol; ac
- Os oes diffyg cydymffurfio mewn awdurdodau lleol yn dal i fod, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau. Ar y pwynt hwn, byddai gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag awdurdodau penodol yn cael ei chroesawu.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor hefyd wedi ysgrifennu heddiw at Gomisiynydd Plant Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yn gofyn am eu barn ar y mater hwn.

Edrychaf ymlaen yn fawr at glywed oddi wrthyich, ac rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu eich croesawu i'r Pwyllgor yn y dyfodol agos.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC**  
Cadeirydd

---

Llythyr gan y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, [\(9 Hydref 2015\)](#)<sup>1</sup>

